

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2025

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Drysorlys Cymru: yr Is-adran Strategaeth Trethi a Chysylltiadau Rhynglywodraethol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2025 ac rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Mark Drakeford AS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg

9 Rhagfyr 2025

RHAN 1 – Memorandwm Esboniadol

1. Disgrifiad

- 1.1. Mae Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2025 (“y Rheoliadau”) yn cael eu gwneud o dan Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 (“Deddf LDT”)¹. Mae Deddf LDT yn sefydlu ac yn nodi'r fframwaith a'r trefniadau gweithredol ar gyfer treth gwarediadau tirlenwi a ddisodlodd dreth dirlenwi'r DU yng Nghymru pan gafodd ei datganoli ym mis Ebrill 2018.
- 1.2. Bydd y Rheoliadau hyn yn diwygio'r gyfradd safonol, y gyfradd is a'r gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi ar gyfer y dreth gwarediadau tirlenwi a fydd yn gymwys i warediadau trethadwy a wneir ar 1 Ebrill 2026 neu ar ôl hynny yng Nghymru. Bydd gwarediadau trethadwy a wneir ar 1 Ebrill 2025 neu ar ôl hynny ond cyn 1 Ebrill 2026 yn parhau'n ddarostyngedig i'r cyfraddau a osodir gan Reoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2025 o ganlyniad i'r diwygiad a wneir gan reoliad 4 o'r Rheoliadau hyn.
- 1.3. Yn ddarostyngedig i ewyllys y Senedd, daw'r Rheoliadau i rym ar 1 Ebrill 2026.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

- 2.1. Dim.

3. Y cefndir deddfwriaethol

- 3.1. Mae'r Rheoliadau'n cael eu gwneud yn unol ag adrannau 14, 46, 93 a 94(1) o Ddeddf LDT:
 - Mae adran 14 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ragnodi'r gyfradd safonol a'r gyfradd is; ac,
 - Mae adran 46 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ragnodi'r gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi.
- 3.2. Mae adran 95 o Ddeddf LDT yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheoliadau sy'n amrywio cyfraddau'r dreth gwarediadau tirlenwi gael eu (i) gosod gerbron y Senedd, a (ii) rhaid iddynt gael eu cymeradwyo gan y Senedd o fewn 28 diwrnod ar ôl cael eu gwneud, heb gyfrif unrhyw gyfnod pan fo'r Senedd wedi'i diddymu neu pan fo ar doriad am fwy na 4 diwrnod. Gelwir hyn yn weithdrefn gadarnhaol “dros dro” neu'n weithdrefn gadarnhaol “gwnaed”.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Crynodeb

¹ <https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2017/3/contents/enacted/welsh>

- 4.1 Bydd y Rheoliadau'n codi'r gyfradd safonol, y gyfradd is a'r gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi ar gyfer y dreth gwarediadau tirlenwi a fydd yn gymwys i warediadau trethadwy a wneir ar 1 Ebrill 2026 neu ar ôl hynny yng Nghymru. Bydd gwarediadau trethadwy a wneir ar 1 Ebrill 2025 neu ar ôl hynny ond cyn 1 Ebrill 2026 yn parhau'n ddarostyngedig i'r cyfraddau a osodir gan Reoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2025.

Nodau polisi ac egwyddorion treth

- 4.2 Wrth ddatblygu treth gwarediadau tirlenwi (LDT) i Gymru, gan gynnwys y Rheoliadau, mae Llywodraeth Cymru wedi cymhwyso ei phum egwyddor ar gyfer datblygu deddfwriaeth a pholisïau trethi datganoledig er mwyn:
- codi refeniw i gynnal gwasanaethau cyhoeddus mor deg â phosibl;
 - helpu i gyflawni amcanion cyllidol a pholisi ehangach, gan gynnwys swyddi a thwf economaidd;
 - bod yn syml, yn glir ac yn sefydlog;
 - meithrin cysylltiadau â threthdalwyr a rhanddeiliaid ehangach;
 - cyfrannu'n uniongyrchol at nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i greu Cymru fwy cyfartal.
- 4.3 Yn ogystal, mae gan Lywodraeth Cymru amcan o leihau gwarediadau tirlenwi yng Nghymru, ac wrth ddatblygu'r Rheoliadau hyn, ystyriwyd yr amcan hwn.
- 4.4 Mae'r dreth gwarediadau tirlenwi, gan gynnwys y Rheoliadau, yn cyfrannu at amcanion gwyrdd ehangach a'r nodau llesiant cenedlaethol, yn arbennig drwy gamau i hyrwyddo economi carbon isel a datblygu economi fwy effeithlon o ran adnoddau. Mae hyn yn adeiladu ar lwyddiant Cymru o ran ailgylchu a lleihau effeithiau amgylcheddol prosesau cynhyrchu a defnyddio.
- 4.5 Bydd y refeniw sy'n deillio o LDT yn cael ei ddefnyddio i gyllido gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn uniongyrchol².

Y sefyllfa bresennol

- 4.6 Mae tair cyfradd o'r dreth gwarediadau tirlenwi; cyfradd is ar gyfer deunyddiau a nodir yn y rhestr o ddeunyddiau cymwys (gan fodloni gofynion penodol) a chyfradd safonol ar gyfer pob deunydd arall. Ceir cyfradd ar wahân hefyd ar gyfer gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi sy'n cael ei chymhwyso i'r deunyddiau hynny sydd wedi'u gwaredu'n anghyfreithlon mewn safleoedd heblaw safleoedd tirlenwi awdurdodedig.
- 4.7 Hyd yn hyn, mae cyfradd safonol LDT yng Nghymru wedi cyfateb i gyfradd safonol y dreth dirlenwi (LfT) yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'r dull hwn wedi adlewyrchu ein safbwynt na ddylai cyfraddau fod yn wahanol oni bai bod amgylchiadau a blaenoriaethau Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i hynny ddigwydd. Yn hanesyddol, mae Llywodraeth y DU wedi pennu cyfraddau LfT yn unol â chwyddiant RPI a ragwelir yn y Gyllideb flwyddyn cyn y dyddiad cychwyn.

² <https://www.llyw.cymru/cyllidebau-llywodraeth-cymru>

- 4.8 Ym mis Mawrth 2024, cyhoeddodd Llywodraeth y DU gyfraddau LfT ar gyfer 2025-26³. Cynyddodd Llywodraeth y DU y cyfraddau yn sylweddol drwy addasu'r Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) i gyfrif am chwyddiant uchel yn y cyfnod 2022 i 2024.
- 4.9 Cyflwynodd Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2025 ymateb Llywodraeth Cymru i'r chwyddiant uwch hwn na'r hyn a ragwelwyd.
- 4.10 Yn dilyn y cynnydd sylweddol hwn, mae Llywodraeth y DU bellach wedi dychwelyd i'w harfer reolaidd o gynyddu cyfradd safonol LfT yn unol â chwyddiant RPI a ragwelir, fodd bynnag, disgwylir y bydd hyn bellach yn cael ei wneud yn y Bil Cyllid yn union cyn y flwyddyn dreth y bydd yn gymwys iddi.
- 4.11 Bydd cyfradd is LfT nawr yn cael ei phennu i sicrhau nad yw'r bwlch o ran arian parod o £122.10 sy'n bodoli ar hyn o bryd rhwng y gyfradd safonol a'r gyfradd is yn cynyddu.
- 4.12 Mae'r Rheoliadau'n cynnig cynnal dull presennol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chyfradd safonol LDT drwy godi'r gyfradd yn unol â chwyddiant RPI a ragwelir, a fydd yn parhau i gyd-fynd â chyfradd safonol LfT.
- 4.13 Mae ein dull ar gyfer pennu'r cyfraddau yng Nghymru wedi lleihau'r risg o dwristiaeth gwastraff (sef symud gwastraff ar draws ffiniau), wedi sicrhau sefydlogrwydd a sicrwydd i fusnesau yng Nghymru, ac wedi galluogi'r dreth gwarediadau tirlenwi i barhau i ategu mentrau presennol sy'n ymwneud â pholisïau effeithlonrwydd adnoddau a'r economi gylchol.
- 4.14 Cynigir cynyddu cyfradd is LDT i gyd-fynd â chyfradd is LfT i sicrhau nad yw cyfradd is LDT yn cyfrannu at dwristiaeth gwastraff nac yn tanseilio'r nodau ar gyfer yr economi gylchol.

Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

- 4.15 Fel rhan o becyn y gyllideb ddrafft a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2025, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg y bydd cyfraddau LDT ar gyfer 2025-26 yn codi yn unol â RPI a ragwelir.
- 4.16 Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg wedi cyhoeddi datganiad ysgrifenedig yn dilyn cyhoeddi'r rhagolygon chwyddiant wedi'u diweddarau gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) a chyhoeddi cyfraddau'r dreth tirlenwi sy'n cadarnhau bod y cyfraddau fel a ganlyn:
- Bydd y gyfradd safonol yn codi o **£126.15** y dunnell i **£130.75** y dunnell;
 - Bydd y gyfradd is yn codi o **£6.30** y dunnell i **£8.65** y dunnell; a,
 - Bydd y gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi (150% o'r gyfradd safonol) yn codi o **£189.25** y dunnell i **£196.15** y dunnell.

³ [Landfill Tax: increase in rates - GOV.UK](https://www.gov.uk/government/news/landfill-tax-increase-in-rates)

- 4.17 Mae'r dull o bennu cyfraddau treth wedi'i lywio gan yr egwyddorion treth a'r amcan o leihau gwarediadau tirlenwi yng Nghymru, fel sy'n ofynnol gan adran 91 o Ddeddf LDT 2017. Yn ogystal, mae sicrhau sefydlogrwydd a sicrwydd i drethdalwyr a'r diwydiant gwastraff ehangach wedi bod yn ffactor allweddol wrth bennu'r cyfraddau hyd yn hyn.
- 4.18 Cynyddwyd cyfradd is LDT i gyfateb i 5% o'r gyfradd safonol o 1 Ebrill 2025 ymlaen er mwyn cyfrannu at leihau'r gwastraff graddfa is sy'n cael ei waredu i safleoedd tirlenwi yng Nghymru. O 1 Ebrill 2026 ymlaen, ni fydd y bylchau o ran arian parod rhwng y gyfradd safonol a'r gyfradd is yn fwy na £122.10. O ganlyniad, bydd cyfradd is LDT yn 2026 yn cyfateb i 6.6% o'r gyfradd safonol.
- 4.19 Mae'r Rheoliadau hyn yn cynnig cynyddu'r gyfradd safonol a'r gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi yn unol â chwyddiant RPI a ragwelir. O ganlyniad, bydd cysondeb o hyd rhwng cyfradd safonol LDT a chyfradd safonol LfT, gan ddarparu sefydlogrwydd parhaus a chydabod bod y gyfradd safonol yn dal yn fesur effeithiol sy'n cyfrannu at leihau gwastraff sy'n cael ei dirlenwi yng Nghymru.
- 4.20 Pennir y gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi yn uwch na'r gyfradd safonol (yn cyfateb i 150% o'r gyfradd safonol), gan greu ataliad ariannol ychwanegol i bobl sy'n ceisio osgoi eu rhwymedigaethau amgylcheddol a gwaredu gwastraff yn anghyfreithlon. Mae pennu'r gyfradd yn uwch na'r gyfradd safonol yn ystyried yr effeithiau negyddol cynyddol ar yr amgylchedd yn sgil gwarediadau gwastraff sydd heb eu hawdurdodi. Mae'r gyfradd hefyd yn cydnabod y bydd costau gweinyddol a ysgwyddir gan weithredwyr cyfreithlon yn cael eu hosgoi ac mae'n adlewyrchu costau gorfodi Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) yn well.

5. Ymgynghori

- 5.1 Nid oes dyletswydd statudol i ymgynghori ar y Rheoliadau mewn perthynas â'r cyfraddau treth. Cyhoeddwyd y bwriad i gynyddu cyfraddau LDT yn unol â chwyddiant RPI a ragwelir a'r angen posibl i wneud newidiadau pellach yn dilyn Cyllideb Llywodraeth y DU gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg fel rhan o gyhoeddi cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar 14 Hydref 2025. Yn yr un modd â gweinyddiaethau treth eraill, nid yw Llywodraeth Cymru yn ymgynghori'n ffurfiol ar newidiadau i gyfraddau treth.

RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

6. Yr opsiynau

6.1 Mae dau opsiwn wedi cael eu hystyried:

- Opsiwn A: codi'r cyfraddau presennol (y gyfradd is, y gyfradd safonol a'r gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi) yn unol â RPI a ragwelir
- Opsiwn B: codi'r gyfradd safonol a'r gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi yn unol â RPI a ragwelir a chynyddu'r gyfradd is i gyd-fynd â chyfradd is LfT

Opsiwn A: codi'r cyfraddau presennol (y gyfradd is, y gyfradd safonol a'r gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi) yn unol â RPI a ragwelir

6.2 Byddai'r opsiwn hwn yn cynyddu pob un o'r cyfraddau gan ddefnyddio chwyddiant, fel y rhagwelir gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR). Mae'r opsiwn hwn yn darparu eglurder i'r diwydiant gwastraff ac yn ailddechrau'r arfer flaenorol o godi cyfraddau yn unol â RPI a ragwelir yn dilyn y cynnydd eithriadol i'r gyfradd y llynedd i gyfrif am chwyddiant uwch na'r hyn a ragwelwyd.

Opsiwn B: codi'r gyfradd safonol a'r gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi yn unol â RPI a ragwelir a chynyddu'r gyfradd is i gyd-fynd â chyfradd is LfT

6.3 Mae'r opsiwn hwn yn cymhwyso'r un cynnydd i'r gyfradd safonol a'r gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi ag o dan Opsiwn A, fodd bynnag, mae'n cydnabod effaith newidiadau Llywodraeth y DU i gyfradd is LfT, sef pe bai cyfradd is LDT yn cael ei chynyddu yn unol â RPI a ragwelir, byddai gwahaniaeth o £2.10 y dunnell rhwng y cyfraddau.

6.4 Byddai'r opsiwn hwn yn darparu bod cyfraddau safonol ac is LfT a LDT yn cyd-fynd.

7. Costau a manteision

7.1 Mae'r costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â phob opsiwn wedi'u llunio gan ddefnyddio'r wybodaeth orau a oedd ar gael ar y pryd.

7.2 Mae cryn ansicrwydd ynghylch y costau a'r manteision ar gyfer yr opsiwn lle nad yw'r cyfraddau'n cyd-fynd â gweddill y DU. Mae hyn oherwydd hyd yn hyn, ychydig iawn o wahaniaeth sydd wedi bod rhwng y cyfraddau, heblaw am y cynnydd i gyfradd is LDT i gyfateb i 5% o'r gyfradd safonol y llynedd. O ganlyniad, dim ond dau chwarter o ddata sydd ar gael ar gyfer y cynnydd hwn ar hyn o bryd, felly nid oes fawr o dystiolaeth i werthuso'r opsiynau hyn.

- 7.3 Mae'r cyfraddau yn seiliedig ar ragolygon yr OBR ar gyfer RPI o'r Rhagolygon Economaidd a Chyllidol a gyhoeddwyd ar 26 Tachwedd⁴.

Opsiwn A: codi'r cyfraddau presennol (y gyfradd is, y gyfradd safonol a'r gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi) yn unol â RPI a ragwelir

- 7.4 Byddai'r opsiwn hwn yn ailddechrau'r polisi o gynyddu cyfraddau yn unol â chwyddiant a ragwelir ac felly'n sicrhau costau a manteision cyson i gynhyrchwyr gwastraff yng Nghymru yn unol â'r blynyddoedd blaenorol.
- 7.5 Mewn perthynas â'r gyfradd safonol, byddai cysondeb o hyd â'r gyfradd a gymhwysir o dan LfT hefyd. Byddai pob un o'r cyfraddau yn cadw eu gwerth mewn termau real o'i gymharu â'r cyfraddau sydd wedi bod yn gymwys ers 1 Ebrill 2025.
- 7.6 Byddai cyfradd is LDT, wedi'i chadw ar 5% o'r gyfradd safonol, yn dod yn gymharol ratach o'i gymharu â chyfradd is LfT gan y byddai cyfradd is LDT yn £6.55 y dunnell. Gallai hyn felly gyfrannu at rai effeithiau ymddygiadol, gan gynnwys y potensial ar gyfer twristiaeth gwastraff i Gymru. O ystyried y gwahaniaeth bach rhwng y cyfraddau, mae'n annhebygol y byddai unrhyw effaith ymddygiadol yn sylweddol.
- 7.7 Yn y blynyddoedd i ddod, byddai cyfraddau is y ddwy dreth berthnasol yn parhau i amrywio gan fod terfyn y bwlch o ran arian parod a gymhwysir o dan LfT yn cael yr effaith o gynyddu cyfran y gyfradd safonol y mae cyfradd is LfT yn ei hadlewyrchu dros amser. Byddai hyn yn cynnig mwy o gymhelliant ar gyfer twristiaeth gwastraff.
- 7.8 O dan yr opsiwn hwn, rhagwelir y bydd cyfanswm y refeniw yn £34.6m yn 2026-27.

Opsiwn B: codi'r gyfradd safonol a'r gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi yn unol â RPI a ragwelir a chynyddu'r gyfradd is i gyd-fynd â chyfradd is LfT

- 7.9 Mae'r opsiwn hwn yn diogelu gwerthoedd y gyfradd safonol a'r gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi mewn termau real ac yn parhau i gyd-fynd â'r gyfradd safonol a gymhwysir o dan LfT.
- 7.10 Bydd cyfradd is LDT o dan yr opsiwn hwn yn cynyddu i gyfateb i 6.6% o gyfradd safonol LDT a bydd yn cyd-fynd â chyfradd is LfT.
- 7.11 Y refeniw a ragwelir o dan yr opsiwn hwn yw £35.5m. Mae hyn £0.8m yn uwch nag o dan Opsiwn A (codi'r gyfradd yn unol â RPI).
- 7.12 O dan yr opsiwn hwn, nid yw'r cyfraddau treth yn cymell twristiaeth gwastraff. Yn ogystal, mae'r cynnydd i'r gyfradd is sydd uwchlaw chwyddiant yn annog defnyddio dulliau ailddefnyddio neu waredu gwastraff

⁴ [Rhagolygon economaidd a chyllidol – Tachwedd 2025 - Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol](#)

amgen. Drwy gau'r bwlch rhwng y gyfradd safonol a'r gyfradd is, mae'r cymhelliant ar gyfer camddisgrifio hefyd yn cael ei leihau.

- 7.13 Fodd bynnag, drwy gynyddu'r gyfradd is uwchlaw chwyddiant, gallai hyn gynnig mwy o gymhelliant ar gyfer gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi.

8. Crynodeb o'r opsiwn a ffefrir

- 8.1 Yr opsiwn a ffefrir fyddai Opsiwn B.
- 8.2 Mae codi'r gyfradd safonol i £130.75 yn adfer gwerth gwirioneddol y dreth ac yn sicrhau bod y gyfradd safonol yn parhau i fod yn ddatgymhelliad i dirilenwi. Mae hefyd yn cyd-fynd â gweddill y DU ac yn sicrhau cyn lleied â phosibl o dwristiaeth gwastraff. Mae'r opsiwn hwn yn darparu referniw treth ychwanegol i Lywodraeth Cymru a ddaw i £xm yn 2026-27 o'i gymharu â gadael y cyfraddau heb eu newid.
- 8.3 Mae codi'r gyfradd is i £8.65 yn sicrhau nad yw cyfradd is LDT yn cyfrannu'n negyddol at dwristiaeth gwastraff nac yn tanseilio'r nodau ar gyfer yr economi gylchol yng Nghymru.

9. Asesiad o'r gystadleuaeth

- 9.1 Gweler Atodiad A.
- 9.2 Ar hyn o bryd, mae 17 o weithredwyr safleoedd tirilenwi yn gweithredu 21 safle⁵ yn y farchnad.
- 9.3 Ni ddisgwylir i'r Rheoliadau gael effaith andwyol sylweddol ar lefelau cystadleuaeth yng Nghymru, na chystadleurwydd cwmnïau o Gymru, gan y bydd cynnydd canrannol mewn cyfraddau yn gymwys i bob gweithredwr.
- 9.4 Bydd y gwahaniaeth rhwng cyfradd is LDT a threthi tirilenwi eraill yn y DU yn arwain at ostyngiad cymharol mewn referniw ar gyfer safleoedd tirilenwi yng Nghymru. Mae hyn yn ganlyniad bwriadol i'r penderfyniad i gynyddu'r gyfradd is i gyfrannu'n well at nodau amgylcheddol Llywodraeth Cymru.

10. Adolygu ar ôl gweithredu

- 10.1 Bydd effaith Deddf LDT 2017 a'r Rheoliadau yn cael ei hasesu ar sail y data a gesglir drwy ffurflenni treth LDT. Bydd y rhain yn rhoi sylfaen dystiolaeth y gellir gwerthuso nifer o bolisiau Llywodraeth Cymru arni. Bydd y data'n cynnwys gwybodaeth ynghylch referniw'r dreth gwarediadau tirilenwi a'r sylfaen dreth yn uniongyrchol, er enghraifft, sawl tunnell o

⁵ <https://www.llyw.cymru/gwiriwch-y-rhestr-o-weithredwyr-safleoedd-tirilenwi-cofrestredig-yng-nghymru>

ddeunyddiau cyfradd safonol a deunyddiau cyfradd is sy'n cael eu hanfon i safleoedd tirlenwi yng Nghymru a'r swm o dreth a godir ar y gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi.

ATODIAD A

Asesiad o'r Gystadleuaeth

Mae dau gam i'r Asesiad o'r Gystadleuaeth. Mae'r cam cyntaf yn hidlydd sydyn sy'n asesu a oes risg o effaith andwyol sylweddol ar gystadleuaeth. Mae'r tabl isod yn dangos canlyniadau prawf hidlo'r gystadleuaeth:

Prawf hidlo'r gystadleuaeth ar gyfer gweithredwyr safleoedd tirlenwi	
Cwestiwn	Ateb
C1: Yn y farchnad (marchnadoedd) yr effeithir arni (arnynt) gan y rheoliad newydd, a oes gan unrhyw gwmni fwy na 10% o gyfran y farchnad?	Oes
C2: Yn y farchnad (marchnadoedd) yr effeithir arni (arnynt) gan y rheoliad newydd, a oes gan unrhyw gwmni fwy na 20% o gyfran y farchnad?	Oes
C3: Yn y farchnad (marchnadoedd) yr effeithir arni (arnynt) gan y rheoliad newydd, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd o leiaf 50% o gyfran y farchnad?	Oes
C4: A fyddai costau'r rheoliad yn cael effaith lawer mwy sylweddol ar rai cwmnïau nag eraill?	Na fyddai
C5: A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y busnesau/sefydliadau?	Nac ydyw
C6: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu talu?	Na fyddai
C7: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau parhaus uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu talu?	Na fyddai
C8: A yw'r sector yn cael ei nodweddu gan newid technolegol cyflym?	Nac ydyw
C9: A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd neu leoliad eu cynhyrchion neu'r amrywiaeth o gynhyrchion a gynhyrchir ganddynt?	Na fyddai